# Datganiad yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SO1517918422 i ben.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn").

Yn unol â'r erthyglau 28(1), 29(2) a 31(1) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SO1517918422 a ddaeth i rym ar 21:15 ar 3 Rhagfyr 2021[2].

Yn unol ag erthygl 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth hwnnw i ben. Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cynnal y mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn, ym mhob safle heintiedig yn y parth hwnnw.

Mae'r Datgan hwn wedi'i creu yn unol ag erthyglau 4 a 36(3). Daw'r Datganiad hwn i rym ar 14:10 ar 10 Ionawr 2022 ac yn cywiro'r Datganiad o 4 Ionawr 2022 a wnaeth dod a'r Parth Gwarchod i ben ac ail-ddatgan y Parth Gwyliadwriaeth.

Mae'r holl dermau a ddefnyddir yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 13:45 ar 10 Ionawr 2021

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd

[1] Rh.S. 2006/2927 (Cy. 262).

[2] Wnaeth y Datganiad o'r Parth Gwyliadwriaeth o 3 Rhagfyr 2021 cael ei ddiddymu ac amnewid am Datganiad pellach a wnaeth dod a'r Parth Gwarchod i ben. Wnaeth y Parth Gwyliadwriaeth cael ei adfer yn y Datganiad yna ar 4 Ionawr 2022.

Copies of this Declaration and of the Order are available at the Welsh Government webpages and from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.